



ysgol ardudwy

Polisi Cwricwlwm

Dyddiad Mabwysiadu : 24/10/18

Dyddiad Adolygu : 23/10/2019

Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol: *Anwen Hughes*

Dyddiad: 24/10/2018

Llofnod y Pennaeth: *H A Williams*

Dyddiad: 24/10/2018



Ysgol ardudwy

Polisi Cwricwlaidd

Nod: Nod y polisi hwn yw sicrhau cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol sy'n eu paratoi ar gyfer addysg neu hyfforddiant pellach, y sefyllfa waith ac ar gyfer bywyd llawn, ffit a iach mewn cymdeithas dechnolegol sy'n prysur newid. Seilir y polisi hwn ar bolisi cwricwlaidd Awdurdod Addysg Gwynedd.

Amcanion:

- Meithrin ymysg y disgyblion agweddau a fydd yn sicrhau gymdeithas waraidd - hunan barch, parch a goddefgarwch at eraill, a dealltwriaeth o'r modd y mae unigolion, grwpiau bychain a chenedloedd yn ddibynnol ar ei gilydd.
- Galluogi pob disgybl i fod yn aelod llawn a gwerthfawr o'r gymdeithas ddwyieithog y mae'n rhan ohoni.
- Paratoi pob disgybl i fod yn aelod llawn a gwerthfawr o'r gymdeithas y mae'n dewis bod yn rhan ohoni yn y dyfodol - boed mewn sefyllfa waith neu fel arall.
- Galluogi pob disgybl i ennill, datblygu a chymhwyso sgiliau iaith, mathemateg a thechnoleg.
- Galluogi pob unigolyn i ddatblygu sgiliau deallusol, creadigol, cymdeithasol, ymarferol a chorfforol.
- Addysgu'r disgyblion am gyraeddiadau a dyheadau dyn ym maes y celfyddydau, y gwyddorau, crefydd a'r ymchwil i gymdeithas ragorach.
- Sicrhau fod pob disgybl yn ennill ac yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer dysgu annibynnol a hefyd ar gyfer addysg am oes.
- Sicrhau fod pob disgybl yn cael arweiniad ar fyw'n iach a ffit.

Dulliau gweithredu:

1. **Cwricwlwm:** Cyflwynir cwricwlwm sy'n cynnig profiadau yn y meysydd a ganlyn:

- (a) Iaith.
- (b) Mathemateg.
- (c) Gwyddoniaeth.
- (d) Technoleg.
- (e) Dyniaethau (gan gynnwys crefydd a moesoldeb).
- (f) Creadigol.
- (g) Personol a Chymdeithasol.

Cyflwynir profiadau yn yr uchod ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Cyflwynir elfennau trawsgwricwlaidd y cwricwlwm ar draws y pynciau ac hefyd mewn gwersi penodol sy'n ffurfio (ynghyd ag arweiniad gwerthfawr arall) Addysg Personol a Chymdeithasol. Bydd pob pwnc hefyd yn gwneud cyfraniad i ddatblygu sgiliau allweddol.

2. **Cyfnodau addas:** Dyrenir cyfnodau addas o amser i'r pynciau unigol er mwyn sicrhau:

- cyfleoedd digonol i gyflwyno cynnwys y gorchmynion pynciol unigol.
- cydbwysedd yn y cwricwlwm.
- gweithrediad effeithiol blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

3. **Anghenion Addysgol Ychwanegol:** Ymdrinir ag anghenion unigolion yn ôl yr angen ond fe ellir nodi dulliau cyffedinol a ddefnyddir gan yr ysgol:



Ysgol ardudwy

- parhau â'r egwyddor o grwpiau dysgu bychain.
 - defnyddio elfen o setio.
 - dysgu cefnogol gan staff Anghenion Arbennig.
 - dysgu mewn sefyllfa un-i-un neu grwpiau llai gan dynnu disgybl(ion) allan o'r prif wersi.
 - cynllun darllen yn ystod y cyfnod boreol.
 - Bydd yr ysgol yn sicrhau fod darpariaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol ar gael i'r disgyblion sydd a hawliau i oriau drwy ddatganiad ar gyfer yr holl yn CA3 a 4 ac yna blaenoriaeth y gefnogaeth ôl yr angen.
4. **Asesu ar gyfer dysgu a Sgiliau Meddwl a Dysgu:** Sicrheir fod pob pwnc yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau meddwl a datblygu sgiliau fydd yn caniatáu iddynt fod yn ddysgwyr annibynnol.
5. **Gweithio ar y cyd â Phartneriaid:** Bydd yr ysgol yn cydweithio â Phartneriaid allanol megis Coleg Meirion Dwyfor ac ysgolion eraill er mwyn cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.
6. **Patrwm Cwricwlaidd Cyfnod Allweddol 3:** Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n sicrhau cydbwysedd ar draws y pynciau y cyfeirir atynt yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ynghyd ag elfennau trawsgwricwlaidd ar gyfer pob disgybl (Gweler Atodiad).
7. **Trefniadaeth y dysgu Cyfnod Allweddol 3:** Gosodir y disgyblion mewn grwpiau cymusg n Blwyddyn 7 ym mhob pwnc ar wahân i gyfnodau tiwtorial, Technoleg (4 grwp) ac Addysg Gorfforol. Yna fe oosodir disgyblion mewn setiau cyffredin yn unol â'u gallu yn y pynciau yma: Saesneg, Addysg Grefyddol; Hanes; Daearyddiaeth; Celf; Cerdd; TGCH; Ffrangeg. Seilir y drefn ar wybodaeth a dderbynir o'r sector gynradd. Ar ôl hanner tymor Diolchgarwch ac yn rheolaidd ar ôl hynny adolygir y drefn setio er mwyn ystyried datblygiad y disgyblion yn Ysgol Ardudwy.
- Parheir â'r un drefn ym mlwyddyn 8 ac yna yn mlwyddyn 9 caiff Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg ei setio'n annibynnol. Rhydd y drefn uchod y cyfle i ddisgyblion elwa o'r budd a geir wrth setio yn ôl gallu heb gollir elfennau gwerthfawr a geir mewn dosbarthaidau gallu cymysg.
8. **Patrwm cwricwlaidd Cyfnod Allweddol 4** (Cwricwlwm 14-19): Gweithredir cwricwlwm sy'n cyflwyno agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn CA4 yn llawn, gan ymgorffori rhai egwyddorion sylfaenol. Ymgorfforir elfennau a pharthau cwricwlwm 14-19 o fewn y rhaglen
- Elfen 1:** Mae'r llwybrau a gynigir wedi'u haddasu ar gyfer yr unigolyn ac yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig. Mae'r llwybrau yn cynnig cyfuniad o elfennau ffurfiol, profiadau sydd ddim yn ffurfiol a phrofiadau anffurfiol. Dylai pob disgybl cael mynediad i gyrsgiau sy'n addas i'w gallu a'u tueddfryd a diddordeb.
 - Elfen 2:** Dylai pob disgybl cael mynediad i gwricwlwm cytbwys sy'n cynnwys yr holl feysydd a nodir uchod a dylai pob disgybl gael dewis, lle bo'n ymarferol, o gyrsgiau oddi mewn i'r meysydd hynny. Cynigir yr amrediad isod o opsiynau.

Gwelir cyfleon i ddilyn cyrsiau sydd yn rhoi cymhwysterau
TGAU – Cymraeg Iaith a Llenydiaeth, Saesneg Iaith a Llenydiaeth, Mathemateg,
Gwyddoniaeth Dwyradd, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth,
Dylunio Cynnyrch, IMT, Busnes, Celf, Cerdd, Addysg Grefyddol, TGCH.



Ysgol ardudwy

Galwedigaethol - Ffotograffiaeth, Adeiladwaith, Peirianeg, Busnes, Chwaraeon, Trin Gwallt, Gofal Plant, Cyfryngau, Amaethyddiaeth.

Tystysgrif Lefel Mynediad – opsiwn mewn rhai pynciau yn ddibynol ar allu disgyblion unigol.

- iii. **Elfen 3:** O fewn y pynciau ceir pwyslais ar y dysgu ehangach er mwyn datblygu'r isod:
 - a. **Sgiliau:** Cyfathrebu; rhif; TGCH; Datrys problemau; gwella hunanddysgu; cydweithio; sgiliau iaith; sgiliau cysylltiedig â gwaith.
 - b. **Gwybodaeth a dealltwriaeth:** Cymru Ewrop a'r Byd; Personol; Cymdeithasol a iechyd; AGCH
 - c. **Agweddau a gwerthoedd:** Parch at yr hunan ac eraill, cyfrifoldeb am ddatblygiad personol.
 - d. **Profiadau:** Canolbwyntio ar waith; cyfranogiad cymunedol; diwylliannol; esthetig a chreadigol.
- iv. **Elfen 4:** Darperir cymorth i benderfynu ar lwybr dysgu a cheir cyfle rheolaidd i drafod yr hyn a ddysgir a'r cynnydd a wneir.
- v. **Elfen 5:** Caiff y disgyblion gyfle i gael cymorth personol pan fydd ei angen – gall y dysgwr ei geisio ei hunan neu gall rhywun ei gyfeirio at y gefnogaeth.
- vi. **Elfen 6:** Cyngor ac arweiniad gyrfaoel: Caiff y disgyblion gyngor ac arweiniad diduedd am yrfaedd a fydd o gymorth i Lwybr Dysgu'r unigolyn.

Monitro ac Adolygu:

1. Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gan yr UDRH a'r Corff Llywodraethol.
2. Bydd yr ysgol yn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi barn am y Cwricwlwm a'i effeithiolrwydd. Bydd yr ysgol yn ystyried barn disgyblion wrth gynllunio'r Cwricwlwm.
3. Bydd effeithiolrwydd cyflwyno'r cwricwlwm yn cael ei fonitro gan yr UDRH, y Penaethiaid Adran a'r Athrawon pwnc. Ymgynghorir â'r bobl hyn pan adolygir y polisi:
 - Disgyblion.
 - Cyngor yr ysgol.
 - Rhieni/Gwarchodwyr/Gofalwyr.
 - Athrawon.
 - Corff Llywodraethol.